Ionawr 2004

Annwyl Gyfaill,

Amgaeir pecyn gwybodaeth a rheolau, ynghyd â'r ffurflenni perthnasol i wneud cais am uned/safle ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ynys Môn 2004.

Mae maes yr Eisteddfod eleni ar safle Sioe Amaethyddol Môn, Mona yn agos i Langefni ac ond 2 filltir o gyffordd 6 ar y A55

Yn dilyn llwyddiant ysgubol yr arbrawf o gael mwyafrif o'r rhagbrofion ar, neu yn agos iawn i'r maes, yn Eisteddfod Tawe Nedd ac Afan 2003 yr ydym yn parhau ar drefn yma a bydd y rhagbrofion i gyd eleni ar faes yr Eisteddfod  Mae hyn yn golygu y bydd nifer helaeth o bobl, tua 2000 – 3000 yn crwydro y maes o 7:00 y.b.  Er bod rheolau cyffredinol i stondinwyr ond yn gofyn i chwi agor o 9:00 y bore tybiwn y byddai fantais i chwi agor yn gynharach er mwyn manteisio ar y bobl fydd yn crwydro'r maes.

Hoffwn dynnu eich sylw at newidiadau/eglurhad  yn rhai o'r rheolau eleni yn benodol yn rheolau  8,9,14,15,17,19 a 20. Y rhai mwyaf pwysig yw:-

Rheol 8 – er mwyn lleihau y nifer o gerbydau sydd yn crwydro'r maes, er gofynion Iechyd a Diogelwch y cyhoedd, efallai fe fydd angen newid yr amser pam fydd cerbydau gyda'r pass unedwyr arbennig fod oddi ar y maes o 9:30 i 8:30 y bore.  Prif reswm y newid yma ydi bod tua 2000-3000 o bobl yn mynd i fod yn crwydro'r maes o tua 7:30 y bore am fod y rhagbrofion i gyd ar y maes.  Mae'r sefyllfa dal o dan ystyriaeth a bydd penderfyniad yn cael eu gwneud yn agosach at yr Eisteddfod pam fydd cynllun terfynol o'r maes wedi eu cwblhau. Nodwch hefyd bod yr Eisteddfod eleni yn cynnig gwasanaeth cludo nwyddau o amgylch y maes yn rhad ac am ddim mewn un o gerbydau yr Eisteddfod.  Er mwyn gwneud defnydd o'r gwasanaeth yma dyle'r gwneud cais swyddogol yn y Swyddfa Diogelwch y maes. Gan nad ydynt ar hyn o bryd yn gwybod faint o alw fydd am y gwasanaeth yma ni allwn waranti y byddwn yn gallu ymateb yn syth i'ch cais, ond y bwriad yw rhoi gwasanaeth sydd mor brydlon â phosib.

Rheol 17 -  Fel sydd wedi nodi mae'r Eisteddfod yn ymwybodol bod y gost o llogi uned yn gallu bod yn dipyn o faich ariannol ar fusnesau/mudiadau bach.  Felly yr ydym yn fodlon ystyried derbyn ceisiadau lle mae mwy nac un busnes/mudiad yn rhannu'r gost o llogi uned. Yn y sefylla yma mae'n rhaid i chi drefnu efo pwy yr ydych yn fodlon rhannu uned a hefyd mae rhaid i bob busnes/mudiad gwblhau Ffurflen A. Yn fwy pwysig mae rhaid nodi pa un o'r busnesau/mudiadau sydd yn rhannu uned fydd yn cymeryd cyfrifoldeb am unrhyw gostau fydd yn ddyledus am logi'r uned.

Y busnes/mudiad yma fydd yn gyfrifol am gasglu yr arian yn ei chyfrif eu hunan a gwneud un taliad i'r Eisteddfod neu gyrri y taliadau ymlaen i Swyddfa'r Eisteddfod. Os am unrhyw reswm bydd taliadau yn ddyledus i'r Eisteddfod pan ddaw yn amser i yrri allan y tocynnau ac ati yna fe fydd y cwbl yn cael eu dal yn nol nes fydd y taliadau wedi eu cwblhâi.

Rheol 19 – Nodwch y rheolai diogelwch ynglŷn â defnyddio silindr nwy balwn.

Fel yn y gorffennol fe fydd yr unedau yn cael eu gosod yn ôl y drefn o dderbyn y taliad llawn gyda sylw at unrhyw ofynion gwasanaethau ychwanegol sydd angen ar yr uned.

Fel y gwyddoch, gall difrod helaeth ddigwydd i faes yr Eisteddfod yn y cyfnod yn union cyn yr Eisteddfod, ac mae gormod o gerbydau yn camddefnyddio'r hawl i fynd at uned neu safle. Mae hyn hefyd yn creu problemau diogelwch i bawb. Felly, **dim ond cerbydau sydd â sticer swyddogol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd AC sy'n amlwg yn cario nwyddau neu offer** a fydd yn cael dod ar y maes o ddydd Gwener 23 Mai 2003 ymlaen. Bydd cerbydau sydd yn anwybyddu y rheolai yma yn cael eu gwahardd o faes yr Eisteddfod am y cyfnod er gwaetha y sticer briodol. Mae digon o le i barcio yn rhad ac am ddim o fewn pellter cerdded hwylus iawn o'r maes.

Er mwyn osgoi trafferth i bawb, a wnewch chi sicrhau bod y sticer briodol gennych ymlaen llaw ac yn amlwg ar ffenestr flaen y cerbyd sydd yn cario nwyddau/offer ar eich rhan.

**DIM OND CERBYDAU SYDD YN AMLWG YN CARIO OFFER TRWM, A/NEU NWYDDAU A GANIATEIR I'R MAES.**

Talu

Tynnir eich sylw at y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais, sef 31 Mawrth 2004, **a bydd rhaid talu dirwy o £100 am gais a dderbynnir a'r ôl y dyddiad yma.** Rhaid talu'n llawn am yr uned/safle cyn 23 Ebrill 2004.

**NI DDANFONIR UNRHYW DOCYNNAU ATOCH, NAC YCHWAITH EICH LLEOLI AR GYNLLUN Y MAES ONI FYDD Y TÂL LLAWN WEDI EI DDERBYN**

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, cysylltwch â ni.

Yn gywir,

Ian D Carter
Rheolwr Busnes a Maes